



YSGOL BRYNREFAIL

'Gyda'n gilydd am y copa'



PROSPECTWS 2024/2025

PROSPECTUS 2024/2025

UCHELGAIS / AMBITION

PARCH / RESPECT

DYCNWCH / RESILIENCE



www.ysgolbrynrefail.org



[@ysgbrynrefail](https://twitter.com/ysgbrynrefail)



[Ysgol Brynrefail](https://www.facebook.com/ysgbrynrefail)



**Dewch i ddathlu gwerth hunaniaeth,
Dewch i rannu gweledigaeth,
Ennyn parch a chreu cymuned:
Drws Brynrefail sy'n agored.**

**Fel yn hanes ein cynefin,
Dycnwch, dyfal donc a meithrin,
Annog 'wnawn pob dawn a gallu
Ac o wreichion siapio 'fory.**

**Drwy uchelgais a her beunydd
Cydiwn ym mhob cyfle newydd;
Boed yn gopa bryn neu fynydd
Cyrraedd 'wnawn ni – gyda'n gilydd.**

(gan ddisgyblion, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Brynrefail a'r
Prifardd Meirion MacIntyre Huws)





Gwyboadeth i rieni / Information for parents	1 & 2
Polisi Mynediad yr Ysgol ac oriau Ysgol / Admissions Policy and school times	3
Cwricwlwm yr Ysgol / School Curriculum	4
Profiadau Ehangach / Enhanced Experiences	5
Darpariaeth Chwaraeon a Datblygu Talent / Sports Provision and Developing Talent	6
Llais Disgyblion / Pupil Voice	7
Polisi Iaith a Manteision Dwyieithrwydd / Language Policy and Benefits of Bilingualism	8
Polisiau Cwricwlaidd / Curriculum Policies - Addysg Rhyw / Sex Education - Addysg Grefyddol / Religious Education - Sgiliau Trawsgwricwlaidd / Cross-curricular skills - Addysg Gyrfaoedd a Byd Gwaith / Careers Education and the World of Work	9, 10, 11 & 12
Cefnogaeth Bugeiliol – Gofal a Lles / Pastoral Care – Wellbeing	13
Polisi Cydraddoldeb a Polisi ADY / Equalities and ALN Policies	14
Cefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion / Support available to students	15
Polisi Gwrth-fwllo a Pholisi Disgyblaeth / Anti-bullying and behaviour policy	16
Trefniadau Amser Cinio / Lunch Time Arrangements	17
Satchel:One / Satchel:One	18
Disgwyliadau / Expectations	19
Sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau llwyddiant eich plentyn / How we can work together to ensure success for your child.	20
Gwisg Ysgol / School Uniform	21 & 22
Presenoldeb a Phrydlondeb / Attendance and Punctuality	23
Polisiau Eraill / Other Policies - Polisi E-ddiogelwch (crynodeb) / E-safety Policy (summary) - Gwybodaeth an ddisgyblion / Information about pupils - Lluniau / Fideos / Photographs / Videos	24
Talu am Weithgareddau Ysgol / Paying for School Activities	25
Cysylltu â'r Ysgol a Polisi Cwyno / Contacting the school and Complaints Policy	26
Cynllun Cyfathrebu / Communication Plan	27, 28 & 28
Staff yr Ysgol Medi 2023/2024 / School Staff September 2023/2024	30 & 31
Llywodraethwyr yr Ysgol 2023/2024 / School Governing Body 2023/2024	32





Ysgol Brynrefail

Llanrug
Gwynedd
LL55 4AD

Ffôn: **01286 672381**

E-bost: swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk

Pennaeth: **Mr Arwyn Williams**

Cadeirydd y Llywodraethwyr: **Tom Hastings**

Ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog ar gyfer disgyblion oedran 11- 18

Nifer disgyblion: **774**

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Diolch am eich diddordeb yn Ysgol Brynrefail. Mae'r gerdd ar y dudalen gyntaf wedi ei chreu gan griw o ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni Ysgol Brynrefail ac mae'n crynhoi ein gweledigaeth. Mi welwch y geiriau allweddol, "uchelgais", "parch" a "dycnwch" sydd yn ganolog i'n disgwyliadau ar gyfer pawb o fewn cymuned yr ysgol. O ystyried fod yr ysgol wedi ei lleoli wrth droed mynydd uchaf Cymru, mae'n addas iawn i ni fod yn annog ein disgyblion i anelu'n uchel a mynd "am y copa" drwy weithio'n galed, dysgu, arbrofi ac wrth gwrs mwynhau ar yr un pryd. Mae'r berthynas rhwng y disgyblion, ein staff ni a chi fel rhieni yn greiddiol i sicrhau'r gorau i'ch plentyn. Ymfalchiwn yn llwyddiant ein disgyblion boed hynny mewn arholiadau neu mewn ffyrdd eraill boed ar gaeau chwearaeon, ar lwyfan neu fel arall.

Bwriad y llawlyfr hwn yw rhoi crynodeb i chi drefniadaeth, polisiau a gweithgareddau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys wedi ei osod yn ôl trefn yr wyddor, gyda'r rhifau gyferbyn a'r penawdau yn gyfatebol i'r rhifau yn y fersiwn Saesneg. Er bod y manylion yn y ddogfen hon yn gywir pan gyhoeddwyd hwy, ni ellir rhagdybio na fydd unrhyw newid a all effeithio ar y trefniadau cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol neu mewn blynyddoedd i ddod.

Caiff pob disgybl sy'n trosglwyddo o ysgol gynradd yn y dalgylch gyfle i ymweld ag Ysgol Brynrefail o leiaf dwywaith yn ystod y flwyddyn, yn nhymor yr Hydref a'r Haf. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cynnal noson agored.

Os y dymunwch fwy o wybodaeth yna mae croeso i chi godi'r ffôn i drafod neu i drefnu cyfarfod. Gobeithiaf y caf y cyfle i'ch cyfarfod yn fuan, a'ch croesawu i ymuno â ni yn "Tim Brynrefs"!

Yn gywir iawn,

Arwyn Williams

Pennaeth

Tachwedd 2024





Ysgol Brynrefail

Llanrug
Gwynedd
LL55 4AD

Telephone: **01286 672381**

E-mail: swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk

Headteacher: **Mr Arwyn Williams**

Chair of the Governors: **Tom Hastings**

The school is a bilingual community comprehensive for pupils aged 11 – 18

Number of pupils: **774**

Dear Parent / Guardian

Thank you for your interest in Ysgol Brynrefail. The poem on the first page was composed by a group of pupils, staff, governors and parents of Ysgol Brynrefail and it summarises our vision. You will see the key words, "uchelgais" (ambition), "parch" (respect) and "dycnwch" (resilience) which are the foundation to our expectations for all within the school community. Given that the school is located at the base of the highest mountain in Wales, it is very suitable for us to be encouraging our pupils to aim high and go "together towards the summit" through hard work, learning, experimenting and of course enjoying at the same time. The relationship between the pupils, our staff and you as parents is crucial to ensure the best for your child. We are proud of the success of our pupils, whether that is in exams on the sports field, on stage or otherwise.

The purpose of this handbook is to present parents with an outline of the school's organisation, policies and activities. Most of the content has been arranged in alphabetical order, (the numbers adjacent to the headings refer to the corresponding numbers in the Welsh version).

All pupils transferring from a primary school in the catchment area have the opportunity to visit Ysgol Brynrefail at least twice during the year, in the Autumn and Summer term. In addition, we will also have an open evening.

Should you require more information you are welcome to contact us to discuss or to arrange a meeting. Hopefully I will have the opportunity to meet you soon, and welcome you to "Tim Brynrefs"!

Yours sincerely,

Arwyn Williams

Headteacher

November 2023





Caiff pob disgybl sy'n mynychu ysgol gynradd yn nalgylch Ysgol Brynrefail yr hawl i fynediad iddi. 133 yw rhif mynediad yr ysgol. Gwneir cysylltiadau â rhieni yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd cyn i ddisgybl drosglwyddo i ysgol uwchradd.

Every pupil who attends a primary school within Ysgol Brynrefail's catchment is given access to the school. The admission number is 133. Parents are contacted early in the final year of primary school.

Pa bryd fydd fy mhlentyn yn cael cyfle i ddod i weld yr ysgol? / When will my child have an opportunity to visit the school



Mae'r ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau cyfoethogi dysgu mewn partneriaeth â'n ysgolion cynradd lleol yn ystod y flwyddyn. Yn ychwanegol cynhelir ymweliadd ffurfiol i ddisgyblion blwyddyn 6 y cyntaf ar ddechrau Tachwedd yn flynyddol gyda diwrnodau ymweld pellach ym mis Mehefin. Bwriad y diwrnodau hyn yw i roi cyfleoedd i'r disgyblion ddod i nabod disgyblion eraill, staff yr ysgol a dechrau dod yn gyfarwydd â safle'r ysgol. Rydym hefyd yn cynnal Noson Agored i ddisgyblion blwyddyn 6 a'u rhieni yn ystod mis Tachwedd.

A range of enrichment activities in partnership with our primary schools are conducted over the course of the year. In addition specific days are arranged for year 6 pupils, the first at the beginning of November in the Autumn Term with further taster days during June. The aim of these days is to give pupils the opportunity to become familiar with the school site, to get to know other pupils and staff. We also hold an Open Evening for Year 6 pupils and their parents in November.

Beth yw oriau'r ysgol? / What are the schools hours?



Darperir 25 awr o wersi yr wythnos. Rhennir y dydd yn chwe gwrs bob un yn 50 munud o hyd. Cennir cloch rhwng pob gwrs ac mae'r disgyblion yn symud o un ystafell arbenigol i un arall. Wrth symud o gwmpas yr ysgol rhwng gwersi gwneir hynny yn drefnus gan gadw ar ochr dde y coridor a'r grisiau.

The day is divided into six lessons each being 50 minutes long. A bell is rung between lessons and the pupils have to move from one specialist room to another. Whilst moving around the school between lessons pupils walk in an orderly manner keeping to the right in the corridors and stairs.

8:45 - 9:05	Cofrestru a Gwasanaeth
9:05 - 10:45	Gwersi 1 a 2
10:45 - 11:05	Egwyl y bore
11:05 - 12:45	Gwersi 3 a 4
12:45 - 13:45	Cinio
13:45 - 15.25	Gwersi 5 a 6

8:45 - 9:05	Registration and Assembly
9:05 - 10:45	Lessons 1 & 2
10:45 - 11:05	Morning break
11:05 - 12:45	Lessons 3 & 4
12:45 - 13:45	Lunch
13:45 - 15.25	Lessons 5 & 6





Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r holl ddisgyblion. Mae'r disgyblion yn dilyn Cwricwlwm i Gymru ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r disgyblion yn dilyn y pynciau craidd ac yn gwneud 3 pwnc dewis. Gweler isod amlinelliad o'r cynnig.

The school prepares a broad, balanced curriculum for all pupils. The pupils follow the Curriculum for Wales in years 7, 8 and 9. In key stage 4, the pupils follow the core subjects as well as 3 option subjects. The provision is outlined below:

CWRICWLWM I GYMRU - BLYNYDDOEDD 7,8 a 9

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg
Mathemateg a Rhifedd	
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Dylunio a Thechnoleg
Y Celfyddydau Mynegiannol	Celf, Cerdd, Drama
Dyniaethau	Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Crefyddol
Iechyd a Lles	Addysg Gorfforol, Bwyd a Maeth, Iechyd a Lles, Gyrfaedd a'r Byd Gwaith

CURRICULUM FOR WALES - YEAR 7, 8 and 9

Languages, Literacy and Communication	Welsh, English, French
Mathematics and Numeracy	
Science and Technology	Biology, Chemistry, Physics, Design and Technology
The Expressive Arts	Art, Music, Drama
Humanities	Geography, History, Religious Education
Health and Wellbeing	Physical Education, Food and Nutrition, Health and Wellbeing, Careers and the World of Work

CWRICWLWM CYFNOD ALLWEDDOL 4

laith	Cymraeg – laith a Llenyddiaeth Saesneg – laith a Llenyddiaeth laith Fodern - Ffrangeg
Mathemateg a Mathemateg Rhifedd	Gwyddoniaeth
Dylunio a Thechnoleg	Bwyd a Maeth
Lletygarwch ac Arlwy	Celf
Daearyddiaeth	Hanes
Addysg Grefyddol	Cerdd
Ffotograffiaeth	Perfformio
Addysg Gorfforol	Adeiladwaith
Peirianeg	Technoleg Cerbydau
Technoleg Cerdd	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
Astudiaethau Tir	Iechyd a Gofal
Astudiaethau Busnes	Agored Cymru
Cefngwlad a'r Amgylchedd	Gofal Anifeiliaid
Gwasanaethau Cyhoeddus	Mecaneg Foduro
Y Flagloriaeth Gymreig – Cenedlaethol / Sylfaenol	Trin Gwallt a Harddwch
Sgiliau Bywyd	

KEY STAGE 4 CURRICULUM

Languages	Welsh Language and Literature English Language and Literature Modern Language - French
Mathematics and Numeracy	Science
Design and Technology	Food and Nutrition
Hospitality and Catering	Art
Geography	History
Religious Education	Music
Photography	Performing Arts
Physical Education	Construction
Engineering	Vehicle Technology
Music Technology	Personal and Social Education
Land Studies	Health and Social
Business Studies	Agored Cymru
Countryside and Environment	Animal Care
Public Services	Automotive Mechanics
The Welsh Baccalaureate – National / Foundation	Hair and Beauty
Life Skills	





Ceir digon o weithgareddau a phrofiadau amrywiol i ehangu gorwelion y disgyblion. Dyma'r rahi mwyaf cyffredin:

- Gweithgareddau'r Urdd gyda theithiau ac ymweliadau â Gwersyll Glanllyn.
- Twrnameintiau chwaraeon fel pêl-droed, hoci, pêl-rwyd, pêl-fasged, athletau, nofio a rygbi.
- Ymweliadau â'r theatr.
- Croesewir siaradwyr gwadd, grwpiau dawns a drama i'r ysgol.
- Eisteddfod ysgol ac Eisteddfodau'r Urdd.
- Fel arfer ceir taith dramor yn ystod Gwyliau'r Pasg neu ar ddiwedd Tymor yr Haf.
- Ymweliadau addysgol â diwydiannau a byd busnes.
- Wythnos Iechyd a Lles - Blwyddyn 7 i 10 - Tymor yr Haf - wythnos o weithgareddau estynedig cwricwlaidd sydd yn cyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion ac yn rhan integredig o'u haddysg. Mae disgwyl i bob disgybl gymryd rhan lawn yn y gweithgareddau hyn.

A wide variety of activities and experiences are provided for our pupils. Amongst the most frequent are:

- The Urdd activities including visits to Glanllyn.
- Games and sports tournaments including hockey, soccer, netball, athletics, swimming, basketball and rugby.
- Theatre visits.
- Speakers are invited together with travelling drama groups, dance and other performing groups.
- There is a successful school eisteddfod as well as the Urdd Eisteddfod competitions.
- There is usually a journey abroad during Easter or at the end of the Summer Term
- Visits to industries and other places of work.
- Health and Wellbeing Week – Yr.7 to 10 – summer term – a week of extended curricular experiences for pupils to enrich their education. Each pupil is expected to take a full and active part in all of these activities.



Beth ydy darpariaeth yr ysgol ar gyfer chwaraeon? /

What is the school's provision for sport?



Mae'r ysgol yn chwarae gemau yn erbyn sefydliadau addysgol eraill mewn pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, hoci, beicio, athletau, criced, dawn, nofio ac mae rhai unigolion yn cynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau eraill. Mae teithiau pêl-droed a sgïo dramor yn cael eu trefnu'n rheolaidd ac mae'r ysgol yn cydweithio yn agos â chlybiau chwaraeon lleol a chanolfannau awyr agored. Mae'r Adran Addysg Gorfforol, mewn perthynas â'n Llysgenhadon Ifanc yn trefnu gweithgareddau allgyrsiol amser cinio ac ar ôl ysgol. Ymgynghorir â'r disgyblion drwy'r Cyngor Chwaraeon a'r Llysgenhadon Ifanc sydd yn aml yn rhedeg nifer o'r gweithgareddau hyn.

The school competes against other educational establishments in football, rugby, netball, hockey, cycling, athletics, cricket, dance and swimming and individuals have represented the school in other areas. Football and skiing trips abroad are arranged regularly and the school works closely with local sports clubs and outdoor pursuits centres. The Physical Education Department, along with our Young Ambassadors organise activities for lunchtime and after school. The activities are arranged through consultation with our pupils particularly our Sports Council and Young Ambassadors, many of whom run a number of these activities.

Mae gan fy mhlentyn dalent arbennig /

My child has a special talent



Mae'r ysgol yn ymfalchïo mewn datllygu talentau ein disgyblion fel y gwelwch o'r tudalennau newyddion ar ein gwefan a'n cyfrifon Trydar. Mae cefnogi a datblygu talentau a gallu ein disgyblion yn allweddol bwysig i ni. Bydd yr ysgol yn gwneud popeth bosibl i roi'r cyfle i'n disgyblion feithrin a datblygu eu talentau – boed hynny yn y maes academaidd neu mewn maes arall megis y celfyddydau neu chwaraeon. Os ydych am drafod hyn ymhellach yna mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.


The school is proud to celebrate the talents of our pupils as you will see from our new pages on our website and our Twitter accounts. Supporting and developing our pupils' talents and ability is important to us. The school will do everything possible to give our pupils the opportunity to develop their special talent – be it an academic talent or a talent in a different area such as sport or the performing arts. If you would like to discuss this matter further, please contact the school.





Mae llais a barn disgyblion yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Rydym yn ymfalchïo yn y nifer o ddisgyblion sydd yn arwain gweithgareddau, yn ymwneud â fforymau llais disgyblion o'r cyngor dosbarth a blwyddyn, Cyngor Ysgol, y pwyllgor lles, cydraddoldeb, cymuned ac addysg a'r cyngor chwaraeon. Cynrychiolir llais y disgyblion o fewn y Corff Llywodraethol drwy'r prif ddisgyblion etholedig yn flynyddol.

Pupil voice and opinions are very important to us as a school. We are very proud of the many pupils who lead activities and who participate in different forums from class and year forums, to the School Council as well as the wellbeing committee, the education, community and equality committee and Sports Council. Pupils' views are represented through the elected head pupils on the Governing Body annually.





Mae'r ysgol wedi ei gosod yng nghategori B (i) yn nôl Dogfen Polisi Iaith Gwynedd. Mae hyn ar sail maint yr ysgol, a'r ffaith bod yr ysgol wedi ei lleoli mewn ardal naturiol Gymreig gydag ond nifer fechan iawn o ddisgyblion sydd yn ddysgwyr ail iaith.

Prif nôd polisi iaith yr ysgol yw sicrhau fod pob disgybl yn datblygu'n hyderus ddwyieithog ac felly fe ddysgir y Gymraeg a'r Saesneg i bob disgybl hyd ddiwedd Blwyddyn 11. Fe bennir y cyfrwng dysgu a'r cydbwysedd ieithyddol yn unol â'r ddealltwriaeth o anghenion dwyieithog y disgyblion unigol. Cymraeg yw iaith gyfathrebu arferol yn yr ysgol.

The school has been placed in the B (i) category according to the Gwynedd Language Policy. This is based on the size of the school population and the fact that the school is situated in a naturally Welsh location with only a very small number of Welsh learners.

The main aim of that policy is to ensure that every pupil develops to become fluently bilingual therefore, both Welsh and English is taught to every pupil to the end of year 11. The medium of learning and language balance is determined by the pupil's individual needs. Welsh is the usual language of communication within the school.

Beth yw Manteision Dwyieithrwydd? / What are the Benefits of Bilingualism?



Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn cyfrannu at y canlynol:-

- Llwyddiant Academaidd
- Magu hyder a balchder
- Datblygu meddwl creadigol a hyblyg
- Cryfhau galluedd gwybyddol
- Datblygu goddefgarwch tuag at ddiwylliannau eraill
- Creu meddwl effro ac agwedd agored
- Profi bywyd cymunedol cyfoethog
- Agor drysau ac ehangu gorwelion – manteision cyflogaeth

Research shows that bilingualism contributes to:-

- Academic Success
- Nurturing confidence and pride
- Developing flexible and creative thinking
- Strengthening cognitive ability
- Develop tolerance towards other cultures
- Create an alert mind and open attitude
- Experience a rich community life
- Open doors and expand horizons – employability benefits





Addysg Cyberthynas a Rhywioldeb

Mae addysg cyberthynas a rhywioldeb yn rhan allweddol a chreiddiol o gwricwlwm pob disgybl ac mae'r modd y'i cyflwynir yn annog disgyblion i'w drafod o fewn cyd-destun moesol a chymdeithasol.

Defnyddir gwersi Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 3 i ddysgu'r agweddau ffeithiol biolegol. Caiff yr addysg iechyd ei ddysgu yn bennaf yn y gwersi Addysg Gorfforol, Iechyd a Lles a Bwyd a Maeth. Ym mlwyddyn 8 a 9 ymlaen defnyddir y rhaglen Iechyd a Lles i drafod materion cymdeithasol, cam-drin, agweddau ar ryw, creu perthynas, afiechydon rhwyiol fel SDIC a chynllunio teulu. Gwahoddir arbenigwyr o fyd addysg iechyd i'r ysgol i gyfrannu i'r rhaglen hon.

Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd

Mae gwersi Addysg Grefyddol yn digwydd ym mhob blwyddyn o'r ysgol. Yn ogystal trefnir gwasanaethau crefyddol boreol rheolaidd fesul Cyfnod Allweddol neu fesul dosbarth. Gall rhiant eithrio plentyn o wersi Addysg Grefyddol a chydaddoliad ac fe wneir trefniadau i'w harolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Bydd disgyblion yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu sgiliau trawsgwricwlaidd:-

- **Llythrennedd**
- **Rhifedd a**
- **Cymwyseddau Digidol.**

Yng CA4 a CA5 datblygir y sgiliau hyn ochr yn ochr â her sgiliau y Fagloriaeth Cymreig.

Relationships and Sexuality Education

Relationships and sexuality education is a core element of every pupil's curriculum and the way in which it is taught fosters pupils to discuss the subject within a moral and social context.

Science lessons in Key Stage 3 are used to teach the biological facts. Health education is mainly taught in the PE lessons, the Health and Wellbeing lessons as well as the Food and Nutrition lessons. In years 8 and 9 the Health and Wellbeing programme of lessons are used to deal with social matters, abuse, attitude to sex, creating relationships, sexual infections and family planning. Experts from the health education field are invited to school to contribute to this programme.

Religious Education and collective worship

Religious Education is presented in every school year. Regular morning assemblies are arranged by Key Stages or by class. A parent may exclude a pupil from Religious Education lessons and assemblies and arrangements for their supervision will be made during these periods.


Developing Cross-Curricular Skills

Pupils will have opportunities across the curriculum to develop the cross-curricular skills of:-

- **Literacy**
- **Numeracy and**
- **Digital Competence.**

At KS4 and KS5 these skills will be developed alongside the Welsh Baccalaureate skills challenges.







Darperir y rhaglen addysg yrfaeodd fel ffordd o feithrin gwybodaeth gyffredinol y disgybl, ei ddealltwriaeth a'i brofiad o addysg hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'n anelu i helpu pobl ifanc i feithrin y medrau sy'n angenrheidiol i ddod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio, i fod yn realistig (ond yn uchelgeisiol), ynglŷn â'u galluoedd a'u dyheadau personol ac i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae'r arweiniad gyrfaoedd sydd ar gael yn yr ysgol yn cynorthwyo unigolion i gymhwyso eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth i wneud dewisiadau realistig a phenderfyniadau priodol am eu dyfodol. Bydd cyfleoedd i adolygu'r hyn a ddysgwyd, i osod nodau newydd ac i gofnodi cyraeddiadau mewn amrywiaeth o feysydd. Nodweddion arweiniad effeithiol i ni ydy bod yn ddi-duedd, yn hygyrch a chyfrinachedd. Hoffem feddwl ein bod yn cyrraedd y nodweddion pwysig yma!

Mae'r rhaglen yn cael ei darparu i flynyddoedd 9 i 11 ac yn ymestyn i flynyddoedd 12 i 13 a thrwy'r Fagloriaeth ym mlynnyddoedd 10-13. Gwneir hyn drwy gyfrwng rhaglen raddedig sydd wedi ei integreiddio o fewn rhaglen ABCh/BAC yn ogystal â chyfrannu tuag at gwricwlwm ehangach yr ysgol. Fel rhan o'r ddarpariaeth y bwriad yw i bob disgybl dderbyn cymorth gyda gwneud dewisiadau, o leiaf un wythnos o brofiad gwaith, un ffug gyfweiliad, mynychu prynhawn opsiynau a mynychu cyfweiliad gyda Chynghorydd Gyrfa. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol fel Gyrfa Cymru, Colegau Addysg Bellach ac Uwch, Asiantaethau Hyfforddi, Cyngor Gwynedd a nifer o gyflogwyr lleol.

Mae'r adran Gyrfaoedd a Gyrfa Cymru yn ceisio gadael i rieni/gwarchodwyr wybod beth sy'n mynd ymlaen ar adegau gwahanol. Maent hefyd ar gael yn ystod nosweithiau rhieni neu pan yn gyfleus i geisio ateb unrhyw gwestiwn perthnasol.

The careers education programme is a means of developing an individual's general knowledge, understanding and experience of education and training and employment opportunities. Also the programme aims to help young people develop the skills necessary to obtain and handle information, be realistic (but ambitious) about personal capabilities and aspirations and make informed decisions regarding their future.

The careers guidance is a means of helping individuals apply their knowledge, skills and information to make realistic choices and appropriate decisions about future options. It also offers opportunities to review learning, set new goals and record achievements in a variety of areas. Effective guidance is generally characterised by impartiality, confidentiality and accessibility – we like to think that we achieve these important goals.

Careers education is generally provided through a progressive programme within PSE as well as contributing to the school's wider curriculum. As part of the provision it is intended that each pupil at the appropriate times between years 9 and 13 will have the opportunity of receiving guidance about making decisions, at least a week's work experience, a mock interview with a local employer, attending an options event and an interview with a careers adviser. The school works closely with outside agencies and industry such as the Careers Wales, Further and Higher education institutions, the Assembly's Education Department, Gwynedd Council and numerous local employers.

The Careers department and Careers Wales strive to inform parents/guardians about current developments. They are always available during parents evenings or any other pre-arranged times to answer any relevant questions or issues which may be of concern.





Rydym yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion ar ddiwedd pob cyfnod allweddol. Mae ein safonau yn gyson uchel o'i gymharu â data lleol a chenedlaethol. Mae llawer o'n disgyblion yn dychwelyd i astudio yn y 6ed dosbarth yn dilyn eu cyrsiau TGAU. Mae eraill yn llwyddo i ddilyn cyrsiau amrywiol ac arbenigol mewn colegau addysg bellach yn lleol a thu hwnt. Prin iawn yw'r disgyblion sydd ddim yn bwrw ymlaen i astudio neu mynd i fyd gwaith yn dilyn eu cyrsiau TGAU.

Yn flynyddol mae disgyblion 6ed dosbarth yn gadael yr ysgol i astudio mewn amrywiaeth o brifysgolion yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd yn mynd ymlaen i astudio cyrsiau Meddygaeth, Peirianeg, Ieithoedd, Y Gyfraith mewn prifysgolion grŵp Russell gan gynnwys Caergrawnt a Rhydychen. Mae eraill yn elwa o'u profiadau 6ed dosbarth ac yn symud ymlaen i gyflogaeth, prentisiaeth ac astudiaeth bellach yn lleol.

We are proud of the achievements of our learners at the end of each key stage. Our standards are continuously high in comparison with both local and national data. Many of our learners return to study in our 6th form following their GCSE courses. Others go on to study in local colleges and other specialist colleges nationally. The learners who don't continue in education or move on to work or apprenticeship are very low.

Annually, our 6th formers leave school to study in a range of universities, both in Wales and in the rest of the UK. This includes learners who go on to study Medicine, Engineering, Languages and Law in Russell group universities including Oxford and Cambridge. Others move on to employment, apprenticeship and further study within the local area.





Mae'r drefn fugeiliol yn amcanu i ofalu am les y disgybl gan gadw golwg ar ei ymddygiad a'i ddatblygiad yn gyffredinol. Yr athro/athrawes sy'n cofrestru'r disgybl sydd yn gyfrifol am oruchwylio presenoldeb a sicrhau bod y disgybl yn deall a dilyn rheolau'r ysgol. Cyfeirir unrhyw broblem sylweddol gydag unrhyw ddisgybl i'r Pennaeth Blwyddyn ac os bydd rhaid i sylw'r Arweinydd Bugeiliol ac yna'r Uwch Dim Arwain.

Credir mewn dwyn sylw rhieni i unrhyw fater difrifol sy'n digwydd yn yr ysgol ac fe wneir hynny drwy ebost neu dros y ffôn.

The pastoral system is intended to look after a pupil's welfare by supervising his/her general behaviour and development. The form teacher who registers the pupil is responsible for supervising attendance and ensuring that the pupil understands and follows school rules. Serious problems are directed to the Head of Year in the first place and, if necessary, to the Pastoral Lead or to the Senior Leadership Team. We believe in drawing parents' attention to any serious matter which takes place in school, this will be done by phone or by email.

Tim Bugeiliol yr Ysgol / School's Pastoral Team



Pennaeth Cynorthwyol, Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Assistant Headteacher, Safeguarding and Child Protection Officer	Mrs Nia Williams
Pennaeth Cynorthwyol Assistant Headteacher	Mrs Jennifer Hughes
Cyd-lynnydd ADY / ALN Co-ordinator	Mrs Alaw Llwyd Roberts
Arweinydd Cynnydd a Lles Bl.7 a Pontio / Transition and Yr.7 Progress and Welfare Leader	Miss Cadi Lake
Arweinydd Cynnydd a Lles Bl.8 a 9 / Yr.8 and 9 Progress and Welfare Leader	Mrs Gwenno Bolton
Arweinydd Cynnydd a Lles Bl.8 a 9 Dros Dro / Temporary Yr.8 and 9 Progress and Welfare Leader	Mrs Non Jones
Arweinydd Cynnydd a Lles Bl.10 ac 11 / Yr.10 and 11 Progress and Welfare Leader	Mr Llion Jones
Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 12 a 13 / Year 12 and 13 Progress Leader	Mr Elfyn Roberts
Pennaeth Blwyddyn 12/13 / Head of Year 12/13	Mr Elfyn Roberts
Swyddogion Bugeiliol / Pastoral Officers	Miss Ffion W Jones Ms Lynn Rowlands
Staff Hafan/Hwb	Ms Hannah Bright & Mrs Bethan Williams





Ymdrechir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Gallwch wneud cais am Bolisi Cyfle Cyfartal yr ysgol pe dymunwch.

Mae gan yr ysgol bolisi diwallu anghenion addysgol arbennig sy'n ateb y gofynion statudol, y Côd Ymarfer a pholisi'r Awdurdod Addysg Leol.

Seilir trefn gwricwlaidd yr ysgol ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig ar y cysyniad o gefnogi disgyblion. Gwneir hyn drwy:

- darparu'n wahaniaethol;
- roi cefnogaeth i'r disgybl yn y dosbarth;
- roi cefnogaeth a chynghor i athrawon pwnc;
- hyfforddiant mewn swydd i athrawon;
- roi cefnogaeth arbenigol i'r disgyblion.

Dyrennir adnoddau ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig o fewn yr ysgol yn ôl;

- fformiwla ysgol sy'n sicrhau fod arian yn mynd i bob adran i ddiwallu anghenion y disgyblion;
- Cynllun Datblygu yr Adran.

Adolygir a gwerthusir y trefniadau a'r polisi drwy:

- gyfarfodydd mewnol;
- gyswllt â'r Llywodraethwr dynodedig;
- gydweithio â'r asiantaethau allanol;
- Gynllun Datblygu'r Ysgol.

Every effort is made to foster equal opportunities in every aspect of school life. A copy of our Equal Opportunities Policy is available upon request.

The school's policy to meet the special education needs encompass the legal requirements and the Local Education Authority's Code of Practice.

The school's curricular pattern to meet pupils' special needs are based on the concept of support. This is achieved by:

- **Preparing differentiated tasks**
- **Providing pupils with support in class**
- **Providing advice and support to subject teachers**
- **Giving staff in-service training**
- **Providing pupils with specialist support.**

Resources for supporting special needs are allocated within the school through:

- **a formula which ensures that money is allocated to every subject to meet the pupils; needs**
- **the Departmental Development Plan.**

This policy is revised and evaluated through:

- **Internal meetings**
- **A link with a nominated Governor**
- **Co-operation with external agencies**
- **The School Development Plan**

Mae gan fy mhlentyn rai problemau dysgu; a fydd yn cael cymorth? / My child has some learning difficulties; will he/she receive support?



Bydd disgyblion ag anghenion arbennig yn cael eu cynnal naill ai gyda chymorth athrawon cynhaliol neu gymorthyddion yn y gwersi arferol neu drwy dynnu disgyblion allan ar gyfer ambell wers yn y pynciau craidd.

Pupils with special needs are supported either by support teachers or classroom assistants within normal classes or by withdrawing pupils from some classes for support in core subjects.

Cefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion /

Support available to students



Isod mae trosolwg o'r cefnogaeth ychwanegol sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ysgol;

Below is an overview of the additional support available to pupils in the school.

Caban (Anghenion Dysgu Ychwanegol) /

Caban (Additional Learning Needs)



Yn y CABAN bydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth i wella ei sgiliau llythrennedd a rhif. Mae'n leoliad lle mae'r disgyblion yn teimlo yn gartrefol ac yn gwybod y gallent ddod yma i chwilio am Gymorth. Yma mae Mrs Sharon Griffith y Cydlynnydd ADY wedi ei lleoli.

In the CABAN, pupils with additional learning needs will receive support to improve their literacy and numeracy skills. It is a location where the pupils feel at home and they know they can come here to look for help and support. Mrs Sharon Griffith, the ALN Coordinator is based here.

HWB Bugeiliol a Hafan (Cefnogaeth emosiynol / Rheoli Ymddygiad) /

HWB Bugeiliol & Hafan (Emotional support / Behaviour Management)



Yn yr Hwb Bugeiliol a'r Hafan bydd disgyblion yn derbyn ymyraethau penodol ac arbenigol er mwyn ymateb i anghenion unigol ac amrywiol y disgyblion. Bydd 3 o aelod o staff profiadol ym maes cynhwysiad yn cefnogi'r disgyblion. Bydd staff arbenigol allanol eraill hefyd yn ymweld a'r Hafan a Hwb er mwyn cynnig cymorth ychwanegol.

In the Hafan and Hwb pupils will receive specific and specialist interventions that respond to the pupils' individual and varied needs. Three members of staff that are experienced in the field of inclusion will support the pupils. Other external specialist staff will also visit the Hafan a Hwb to offer additional support.

POD Dysgu (Cefnogaeth gyda gwaith ysgol) /

POD Dysgu (Support with school work)



Mae'r PODDysgu yma i gefnogi profiadau dysgu disgyblion ac i ddarparu cyfleoedd iddynt feithrin, magu ac atgyfnerthu sgiliau i'w helpu i wneud y gorau o'u haddysg. Mae'r POD Dysgu yn darparu cefnogaeth ac ymyrraeth i ddisgyblion er mwyn eu galluogi i oresgyn rhwystrau ac i gyflawni eu potensial. Bydd cymorth ar gael er mwyn annog dysgu ac arweiniad i osod targedau realistig ac ymarferol.

The POD Dysgu is here to support pupils' learning experiences and to provide them with opportunities to cultivate, nurture and reinforce skills to help them make the most of their education. The POD Dysgu will provide support and intervention for pupils to enable them to overcome obstacles and achieve their potential. Support will be available to encourage learning and guidance to set realistic and practical targets.



A oes bwlio yn yr ysgol? / Is there bullying at the school?



Nid oes problemau bwlio mawr yn yr ysgol ond mae'n rhaid cadw golwg ar y sefyllfa'n barhaus. Rydym yn dilyn Rhaglen Gwrth-fwlio KiVa. Mae'r ysgol yn cymryd materion bwlio o ddifri a bydd pob achos yn cael ei ymchwilio'n drylwyr gan gadw cofnod ohono. Mae hyn yn wir am bob math o fwlio, gan gynnwys y broblem o fwlio technolegol drwy'r we a ffonau symudol. Rydym yn ymfalchio yn y gymuned glos a gwâr sydd yma yn Ysgol Brynrefail, ond os yw plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei fwlio, dylid dod â hyn i sylw athro ar unwaith fel y gellir ymateb yn syth i'r sefyllfa. Trwy gydweithio a dilyn trefniadau KiVa gallwn sicrhau na fydd bwlio yn broblem fawr yn Ysgol Brynrefail. Ceir copi o'n polisi gwrth fwlio yn adran diogel i rieni ar ein gwefan.

Bullying is not a major problem at the school but we must keep vigilant. As a school we follow the KiVa anti-bullying programme. The school takes every incident of bullying very seriously and all cases are investigated and records are kept. This is true regarding every type of bullying, including the problem of 'cyber bullying', such as through the internet and mobile phones. We take great pride in the close and civilized community that we have here, at Ysgol Brynrefail. However if a child feels that they're the victim of bullying, they should report it to a teacher immediately, so that the situation can be dealt with at once. By working together and following the KiVa procedures we can ensure that bullying is not a major problem at Ysgol Brynrefail. A copy of our anti-bullying policy can be found on the secure section of the website for parents.

Beth ydi trefn ddisgyblaeth yr ysgol? / What is the school's disciplinary procedure?



Mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ddisgyblaeth yn y dosbarth. Trefnir rota dyletswyddau staff i arolygu yn ystod yr egwyl ac amser awr ginio.

Cyfeirir unrhyw drafferthion disgyblaeth i'r Pennaeth Blwyddyn fel cam cyntaf. Yna os yw'r digwyddiad yn un difrifol i'r Arweinydd Bugeiliol, y Penaethiaid Cynorthwyol, Dirprwyon neu'r Pennaeth.

Rhown bwyslais ar gael disgyblion i ddefnyddio eu synnwyr cyffredin ac ymddwyn yn rhesymol ac annibynnol heb ormod o oruchwyliaeth. Y nŵd yw datblygu hunanddisgyblaeth a'r gallu i ymddwyn yn ddoeth heb i rywun mewn awdurdod fod wrth law a cheryddu bob amser. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymateb yn ffafriol iawn i'r math yma o sefyllfa.

Petai angen fe gosbir disgyblion drwy eu cadw i mewn yn ystod amser egwyl neu ginio neu ar ôl ysgol ar ôl rhoi rhybudd i rieni.

Every teacher is responsible for discipline within the class. Duty rotas are prepared to supervise pupils during the lunch hour and morning break.

Any discipline problems will be directed to the Head of Year in the first instance and to the Pastoral Lead, the Assistant Heads, Deputy Heads or Headteacher if the matter deserves their attention.

Emphasis is placed on pupils using their common sense by behaving reasonably and independently without too much supervision. The aim is to develop self-discipline and the ability to behave wisely without having someone in authority to be at hand to reprimand on every occasion. The majority of pupils respond very favourably to this type of situation.

If necessary pupils will be punished by being kept in at lunchtime or after school after parents have been informed.

Beth yw trefniadau amser cinio? / What are the lunchtime arrangements?



Mae gan ddisgyblion ddau ddeuwis :

Bwyta cinio ysgol. Trefnir cinio am ddim i'r rhai sydd gyda'r hawl i'w dderbyn.

Dod â bocs bwyd eu hunain a bwyta yn y Ffreutur.

Ni chaniateir i ddisgyblion adael y safle yn ystod amser egwyl a chinio.

Pupils have two choices:

Either eat school lunch. Free lunch is available to those who are eligible.

Bring their own packed lunch and eat in the school canteen.

Pupils are not permitted to leave the school site at either break time or lunchtime.



Pa offer fydd ei angen ar gyfer dod i'r ysgol? / What equipment will I need to bring to school?



